# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 2

ABSENOLDEB TEULUOL AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL

### 25 Absenoldeb newydd-anedig

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i aelod o awdurdod lleol sy'n bodloni amodau rhagnodedig—

(a) o ran perthynas â phlentyn newydd-anedig neu blentyn a ddisgwylir, a

(b) o ran perthynas â mam y plentyn.

(2) Mae gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb ("absenoldeb newydd-anedig") at ddibenion—

(a) gofalu am y plentyn, neu

(b) cynorthwyo'r fam.

(3) Rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu—

(a) i ba raddau y mae gan aelod hawl i absenoldeb newydd-anedig mewn cysylltiad â phlentyn;

(b) pryd y caniateir cymryd absenoldeb newydd-anedig.

(4) Ni chaniateir i reoliadau ddarparu i gyfnod o absenoldeb newydd-anedig mewn cysylltiad â phlentyn fod yn hwy na dwy wythnos.

(5) Rhaid i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i absenoldeb newydd-anedig gael ei gymryd cyn diwedd cyfnod rhagnodedig.

(6) Rhaid i'r cyfnod hwnnw fod yn gyfnod o 56 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau ar ddyddiad geni'r plentyn.

(7) Caiff rheoliadau ragnodi amgylchiadau pan gaiff aelod o awdurdod lleol, neu pan gaiff yr awdurdod lleol—

(a) terfynu cyfnod o absenoldeb newydd-anedig, neu

(b) diddymu cyfnod o absenoldeb newydd-anedig.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(8) Caiff rheoliadau—

(a) (at ddibenion is-adran (2)) ragnodi pethau sydd i'w barnu neu beidio a'u barnu yn bethau sydd wedi eu gwneud at ddibenion gofalu am blentyn neu gynorthwyo mam y plentyn;

(b) caniatáu i aelod ddewis, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhagnodedig, y dyddiad pryd y bydd cyfnod o absenoldeb newydd-anedig yn dechrau;

(c) gwneud darpariaeth sy'n eithrio hawl i absenoldeb newydd-anedig mewn cysylltiad â phlentyn pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei eni o ganlyniad i'r un beichiogrwydd;

(d) gwneud darpariaeth ynghylch sut y ceir cymryd absenoldeb newydd-anedig.

(9) Pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei eni o ganlyniad i'r un beichiogrwydd, mae'r cyfeiriad yn is-adran (6) at ddyddiad geni'r plentyn i'w ddarllen fel cyfeiriad at ddyddiad geni'r plentyn cyntaf a gaiff ei eni o ganlyniad i'r beichiogrwydd.

(10) Yn yr adran hon—

mae "plentyn newydd-anedig" (*"newborn child"*) yn cynnwys plentyn marw-anedig ar ôl 24 o wythnosau o feichiogrwydd;

ystyr "wythnos" (*"week"*) yw unrhyw gyfnod o saith niwrnod.